# Diweddariad i randdeiliaid: gwyddoniaeth ac ymchwil (Rhagfyr 2022)

Yn y bwletin hwn, byddwn yn tynnu sylw at gyhoeddiad ein diweddariad blynyddol ar wyddoniaeth ar gyfer Bwrdd yr ASB yn ogystal â chwmpas eang allbynnau ein rhaglenni ymchwil. Byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ymchwil PATH-SAFE.

Tanysgrifiwch i'r cylchlythyr trwy GovDelivery.

## Uchafbwyntiau

Cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Rhagfyr 2022: Diweddariad yr ASB ar Wyddoniaeth 2022

Cyflwynodd Julie Pierce a Rick Mumford bapur a oedd yn rhoi diweddariad blynyddol ar wyddoniaeth yr ASB, gan gynnwys datblygu gallu gwyddoniaeth, tystiolaeth ac ymchwil yr ASB; adolygiad o gyflawniadau a'r cynnydd a wnaed ers y diweddariad diwethaf; a chrynodeb o'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol

2022 – Blwyddyn mewn gwyddoniaeth yn yr ASB

Mae'r Athro Robin May, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB, yn myfyrio ar ymrwymiad yr ASB i wyddoniaeth a'r gwaith a gyflawnwyd trwy gydol 2022.

Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB yn cyhoeddi adolygwyr annibynnol ar gyfer Adolygiad o Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol

Mae'r Athro Robin May wedi cyhoeddi penodiad adolygwyr annibynnol ar gyfer dau o Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol (SACs) annibynnol yr ASB.

Adolygiad o Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol a Phwyllgorau Arbenigol ar y Cyd

Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau adolygiadau mewnol o dri o'n Pwyllgorau Cynghori Gwyddonol (SACs) a thri Gr?p Arbenigol ar y Cyd (JEGs).

Yr arolwg defnyddwyr diweddaraf yn olrhain lefel y pryder ynghylch cost bwyd ac effaith hyn ar ddiogelwch bwyd

Mae tystiolaeth newydd gan yr ASB yn dangos bod rhai pobl yn cymryd risgiau diogelwch bwyd oherwydd pwysau ariannol a chostau ynni cynyddol.

Defnyddwyr y DU yn rhannu eu safbwyntiau ar fwyd wedi'i fridio'n fanwl

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi cyhoeddi cam cyntaf arolwg o agweddau'r cyhoedd tuag at fridio manwl, fel rhan o ymdrechion ehangach i gynyddu eu sylfaen dystiolaeth ym maes technolegau genetig.

## Llongyfarchiadau

Cyrhaeddodd tîm y prosiect Kitchen Life 2 (tîm Gwyddorau Cymdeithasol yn yr ASB) y rhestr fer ar gyfer Gwobr y Gwasanaeth Sifil am y Defnydd Gorau o Ddata a Thechnoleg, a'r wobr Dulliau Arloesol Wrth Ddadansoddi yn y Llywodraeth. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae'n darparu mewnwelediad newydd i asesiad risg, datblygiad polisi a chynllun ymyrryd ymddygiadol yr ASB.

Dyma fideo o Dr Arthur de Carvalho e Silva, cymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Birmingham a ariannwyd gan yr ASB, ar ôl ennill Gwobr Ymchwilydd Ifanc, Gwobr Lush am ein hymchwil bwysig ar fethodolegau tocsicoleg cyfrifiadurol mewn perthynas ag asesiadau risg cemegol.

# Cyfleoedd

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ymchwilwyr ymuno â ni, gan gynnwys interniaethau, ysgoloriaethau ymchwil a chymrodoriaethau, neu swyddi. Mae mwy o wybodaeth am ein cyfleoedd diweddaraf i'w gweld isod.

## Swyddi Gwag

Ymchwilydd y Gwyddorau Cymdeithasol

Rydym yn chwilio am Swyddog Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol a all ddarparu mewnwelediadau ar sail tystiolaeth ar draws ystod eang o brosiectau yn y dyfodol fel rhan o'r tîm Gwyddor Gymdeithasol. Byddwch yn cefnogi uwch ymchwilwyr gyda phrosiectau amrywiol a diddorol, ac yn cael y cyfle i arwain eich prosiectau llai eich hun. Bydd y gwaith yn helpu'r ASB i wneud penderfyniadau polisi hanfodol, yn ogystal â deall yn well sut y bydd y penderfyniadau hynny'n effeithio ar fywydau'r cyhoedd. (Dyddiad cau, dydd Llun 2 Ionawr 2023)

Asesydd Risg Gwenwynegol

Mae gennym gyfle cyffrous i aseswr risg gwenwynegol ymuno â'r Is-adran Tystiolaeth, Ymchwil a Gwyddoniaeth. Gan weithio ar ystod eang o brosiectau, o adroddiadau manwl i asesiadau risg ymateb i ddigwyddiadau, byddwch yn ymgymryd â gwaith amrywiol a hynod ddiddorol a fydd yn cefnogi, nid yn unig cenhadaeth yr ASB, ond hefyd iechyd y cyhoedd yn gyffredinol. (Dyddiad cau, dydd Llun 2 Ionawr 2023)

## Adborth gan randdeiliaid

Arolwg Bwyd a Chi 2 ar gyfer rhanddeiliaid

Rydym bellach wedi cyhoeddi pedair cylch o arolwg blaenllaw'r ASB, Bwyd a Chi 2, sy'n casglu data ar agweddau, gwybodaeth ac ymddygiad hunangofnodedig defnyddwyr ynghylch diogelwch bwyd a phynciau eraill sy'n ymwneud â bwyd.

Dyma gyfle i'r rheiny sy'n defnyddio'r canfyddiadau i gymryd rhan mewn arolwg 10 munud a gynlluniwyd i gasglu eich barn ar yr adroddiad Bwyd a Chi 2, allbynnau eraill, a sut rydych yn defnyddio'r data yn eich gwaith. Bydd eich adborth yn ein galluogi i wneud gwelliannau ar gyfer cylchau'r dyfodol. Bydd yr arolwg yn cau ddydd Gwener 13 Ionawr 2023.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn neu am Fwyd a Chi 2 yn fwy cyffredinol, cysylltwch â'r tîm yn: foodandyou@food.gov.uk

# Dyddiadau i'ch dyddiadur

## Seminarau Cnoi Cil yr ASB

Nod cyfres seminarau Cnoi Cil yr ASB yw creu hyb gwybodaeth hygyrch i alluogi dysgu ar y cyd a rhwydweithio ar bynciau yn y diwydiant bwyd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ymchwil yr ASB.

### Sterling Crew – 26 Ionawr

Ymunwch â ni ddydd Iau 26 Ionawr rhwng 12pm a 1pm, lle bydd Sterling Crew, Llywydd Etholedig y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST), Cadeirydd y Rhwydwaith Dilysrwydd Bwyd, yn trafod yr hyn y gall y digwyddiad wyau ei ddysgu am reoli argyfwng bwyd. Yn y sesiwn bydd Sterling, Cynghorydd Gwyddonol a Rheoleiddiol Annibynnol i Gyngor Diwydiant Wyau Prydain (BEIC) yn darparu mewnwelediad ac astudiaeth achos ar sut y dechreuodd yr argyfwng ym 1988, a sut y gwnaeth diwydiant wyau'r DU adfer ac adennill hyder defnyddwyr.

### Ipsos a Trussell Trust – 8 Chwefror

Ymunwch â ni ddydd Mercher 8 Chwefror rhwng 1pm a 2pm, lle bydd Rachel Bull a Grace Wyld (Trussell Trust) a Daniel Cameron (Ipsos UK) yn cyflwyno canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad Hunger in the UK. Mae hwn yn brosiect ymchwil aml-flwyddyn mawr sy'n edrych ar raddfa, proffil a ysgogwyr defnydd banciau bwyd a thlodi yn y DU. Mae'r prosiect yn archwilio pwy sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio banciau bwyd, beth sy'n ysgogi'r angen cynyddol am fanciau bwyd, beth sy'n achosi'r tlodi, a beth yw'r datrysiadau polisi ac ymarferion effeithiol i gefnogi pobl sydd â diffyg diogeledd bwyd ac atal tlodi.

I gael eich ychwanegu at y rhestr wahodd ar gyfer y naill ddigwyddiad neu'r llall uchod, anfonwch e-bost i foodforthought@food.gov.uk a nodwch pa seminar yr hoffech gymryd rhan ynddi.

## Cyhoeddiadau diweddar

Rydym yn cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid ar brosiectau ymchwil i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Mae ein cyhoeddiadau ar gael ar ein tudalennau Ymchwil a Thystiolaeth, a gallwch weld ein hymchwil diweddaraf isod, wedi'i chategoreiddio yn ôl maes o ddiddordeb ymchwil.

### Ymwrthedd gwrthficrobaidd:

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) mewn Campylobacter mewn cyw iâr yn y DU dros yr 20 mlynedd diwethaf

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad sy'n dadansoddi 20 mlynedd o ddata ar ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) mewn Campylobacter mewn cyw iâr a fanwerthir yn y DU.

### Ymddygiadau a chanfyddiadau:

Bwyd a Chi 2: Canfyddiadau Allweddol Cylch 3-4 Gogledd Iwerddon

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cylch 3 a 4 ein harolwg Bwyd a Chi 2 sy'n benodol i Ogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r pynciau canlynol: ymddiriedaeth mewn bwyd, pryderon am fwyd, diffyg diogeledd bwyd, bwyta allan a siopau tecawê, alergeddau ac anoddefiadau bwyd, bwyta gartref, siopa a labelu bwyd a bwyta'n iachus.

Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd - Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Cylch 4 ein harolwg Bwyd a Chi 2 sy'n ymwneud â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Arolwg Tracio Misol Mewnwelediadau Defnyddwyr

Ymchwil a mewnwelediadau defnyddwyr ar ymddygiadau ac agweddau at ddiffyg diogeledd bwyd, argaeledd bwyd, pryderon defnyddwyr a hyder yn y gadwyn gyflenwi bwyd. Cyhoeddwyd adroddiad mis Tachwedd heddiw.

Ymchwil ansoddol sy'n archwilio agweddau defnyddwyr at fwyd a werthir ar-lein

Comisiynwyd Ipsos i gynnal ymchwil i ddeall agweddau defnyddwyr tuag at brynu bwyd ar-lein, gan gynnwys y risgiau canfyddedig sy'n gysylltiedig â hyn. Ceisiodd yr ymchwil gasglu agweddau ynghylch prynu bwyd trwy amrywiaeth o wahanol fanwerthwyr ar-lein, gan gynnwys gwefannau archfarchnadoedd ar-lein, apiau gwasanaethau dosbarthu bwyd, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac apiau rhannu bwyd.

## Galluoedd:

Dadansoddiad o gynhyrchion CBD

Comisiynwyd Fera Science Ltd. gan yr ASB i gynnal arolwg i gael cipolwg o'r cynhyrchion CBD sydd ar werth yng Nghymru a Lloegr er mwyn llywio asesiad risg yr ASB o gynhyrchion CBD.

**Labordai Cyfeirio Cenedlaethol**

Mae Labordai Cyfeirio Cenedlaethol (NRLs) yn labordai arbenigol sy'n gyfrifol am gynnal safonau ar gyfer profi bwyd a bwyd anifeiliaid yn rheolaidd. Maent yn darparu cyngor a chefnogaeth ar ddulliau ar gyfer profi rheolaethau swyddogol, gan sicrhau bod mesurau gorfodi bwyd cymesur sy'n seiliedig ar risg yn cael eu cyflenwi i ddiogelu defnyddwyr. Mae'r NRLs bellach wedi cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol (Saesneg yn unig), gan amlygu'r camau gweithredu a gwblhawyd ar gyfer eu meysydd yn ystod 2021/22.

- Adroddiad blynyddol y NRL ar GMOs (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Halogion Cemegol (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Fiotocsinau Morol (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Feirysau a Gludir gan Fwyd (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Anisakis (llyngyr parasitig) (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar halogiad bacteriol molysgiaid dwygragennog byw (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Trichinella ac Echinococcus (21/22)
- Adroddiad blynyddol y NRL ar Ficrobioleg (21/22)

## Peryglon Cemegol mewn Bwyd a Bwyd Anifeiliaid:

Adroddiad ar Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE) 2021

Canfu adroddiad blynyddol ar Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE) fod lefelau ymbelydredd synthetig yn parhau i fod yn is na'r terfyn cyfreithiol.

Rhaglen Monitro Gwyliadwriaeth Nitradau (Adroddiad Blynyddol Mai 2021 – Mawrth 2022)

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cyflwyno canfyddiadau ar lefelau nitrad mewn letys, sbigoglys (spinach) a roced rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

## Buddiannau defnyddwyr:

Hyrwyddo deietau iach a chynaliadwy: Sut i gynhyrchu a throsi tystiolaeth yn effeithiol

Comisiynwyd Prifysgol Efrog, mewn partneriaeth â Phrifysgol Swydd Hertford, gan yr ASB i archwilio’r rhwystrau wrth fabwysiadu tystiolaeth i feysydd polisi ac ymarfer, a datblygu set o egwyddorion arweiniol ar gyfer cynhyrchwyr tystiolaeth ar sut i greu a throsi tystiolaeth yn fwy effeithiol.

### Clefyd a gludir gan fwyd:

SARS-CoV-2 sy’n goroesi ar arwynebau bwyd a deunyddiau pecynnu bwyd

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd yr ASB ganfyddiadau astudiaeth a asesodd coronafeirws a oedd yn goroesi ar fwydydd dethol a deunydd pecynnu bwyd. Mae BBC a Sky News wedi ymateb i’r ymchwil.

### Bwydydd newydd:

Arolwg o agweddau’r cyhoedd tuag at fridio manwl

Comisiynwyd Ipsos UK gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban i gynnal prosiect ymchwil cymdeithasol dau gam ar fridio manwl. Roedd cam cyntaf y prosiect ymchwil cymdeithasol yn gofyn am adborth gan aelodau’r cyhoedd ledled y DU o ran eu hymwybyddiaeth a’u hagweddau at fwyd wedi’i fridio’n fanwl, a pha wybodaeth am fwyd wedi’i fridio’n fanwl sy’n bwysig yn eu barn nhw.

Datganiad ar ganlyniad y gweithdy (ACNFP) ar Organebau wedi’u Bridio’n Fanwl (PBOs)

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP) eu datganiad ar organebau a gafodd eu bridio’n fanwl sy’n nodi meysydd o gonsensws ar faterion gwyddonol a nodwyd gan ACNFP hyd yn hyn. Bydd y cyngor hwn yn llywio Bwrdd yr ASB wrth wneud penderfyniadau ar y dull o reoleiddio PBOs yn Lloegr.

## Y Rhaglen PATH-SAFE

### Clefydau a gludir gan fwyd a diagnosteg o bell

Fel y soniwyd yn ein diweddariad diwethaf, mae’r rhaglen PATH-SAFE, sef rhaglen drawslywodraethol gwerth £19.2 miliwn a ariennir gan Gronfa Canlyniadau a Rennir y Llywodraeth (SOF) ac a arweinir gan yr ASB, yn mynd rhagddi gyda nifer o weithgareddau’n cael eu cynnal, ar draws amrywiaeth eang o bartneriaid.

Ym mis Medi roeddem yn falch o gyhoeddi bod Fera Science, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Lincoln, wedi cael contract i arwain ar astudiaeth o ddiagnosteg gyflym yn y maes i helpu’r rhaglen i ddeall pa dechnoleg sydd ar gael a defnydd cyfredol y dechnoleg honno. Bydd hyn yn cynnwys sganio’r gorwel, astudiaeth parodrwydd technoleg ac asesiad o anghenion y defnyddiwr terfynol. Bydd canlyniadau’r ymchwiliadau hyn yn llywio opsiynau ar gyfer camau nesaf y profion yn y maes. Bydd dylunio cymwysiadau ar y cyd â defnyddwyr terfynol yn hanfodol i sicrhau bod modd eu defnyddio yn y byd go iawn.

Dechreuodd y prosiect ym mis Medi, gyda’r dyddiadau allweddol canlynol yn y dyfodol:

- Mae gwaith sganio’r gorwel, asesiad parodrwydd technoleg ac astudiaeth o anghenion defnyddwyr terfynol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a disgwylir adroddiad ym mis Mawrth 2023.
- Disgwylir i brofion yn y maes, dan arweiniad agweddau blaenorol y prosiect, ddechrau ym Mehefin 2023, a disgwylir adroddiad erbyn mis Mawrth 2024.

## Sut y gallwch helpu

Os ydych yn ymwybodol o astudiaethau tebyg ar barodrwydd technoleg, sydd naill ai yn yr arfaeth neu ar y gweill, cysylltwch â'n tîm PATH-SAFE fel y gallwn archwilio synergeddau posib ar draws prosiectau. Rydym yn awyddus i gysylltu a chyfathrebu ag unrhyw brosiectau eraill y llywodraeth ar barodrwydd technoleg, er mwyn gwneud y mwyaf o allbynnau pob un o'r prosiectau.